



## **Protocol Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu Plant sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref**

### **BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

<b>Fersiwn</b>	<b>Dyddiad Diwygio</b>	<b>Perchennog</b>	<b>Dyddiad cymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol</b>	<b>Dyddiad Adolygu</b>
Fersiwn 1	30/01/21	Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru	30/01/20	30/01/22
F2	Hydref 2022	Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (Is-grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau)	24/01/2023	24/01/2025

## **Diben Protocol y Canllawiau Ymarfer**

Bwriad y protocol amlasiantaethol hwn yw darparu dull rhanbarthol a chyson o ddiogelu plant a phobl ifanc ar draws rhanbarth CYSUR sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref. Mae'r protocol wedi'i fwriadu i gynorthwyo asiantaethau a phartneriaid amlasiantaethol i weithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod gan CYSUR oruchwyliaeth gadarn ar addysg ddewisol yn y cartref a sicrhau bod pob plentyn yn y rhanbarth yn cael ei ddiogelu'n deg.

Nod y protocol yw codi ymwybyddiaeth o'r posibilrwydd bod rhai disgyblion sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn agored i niwed, a darparu proses systematig ar gyfer nodi'r rheiny sydd fwyaf bregus ond gan gydnabod nad yw addysg yn y cartref ynddi'i hun yn destun pryder diogelu a derbyn hefyd y bydd yna leiafrif o blant, fel yn unrhyw boblogaeth o ddisgyblion, y bydd pryderon diogelu yn eu cylch.

Bwriedir i hyn ddarparu fframwaith ar gyfer:

- hybu lles ein plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref
- cytuno ar ddull systematig o nodi'r plant hynny sy'n cael eu haddysgu gartref
- cytuno ar ddull cyson o ddarparu cymorth a chyngor i rieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc sy'n ystyried neu sydd eisoes yn addysgu eu plentyn/plant yn y cartref.
- hyrwyddo ymgysylltiad cadarnhaol â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref.
- sicrhau bod gan bob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â'r teulu y sgiliau angenrheidiol i ganfod pryderon o ran diogelu

## **Cyd-destun Cyfreithiol Addysg Ddewisol yn y Cartref**

Yng Nghymru a Lloegr, rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod eu plant yn cael addysg addas ac effeithlon. Er bod y cyfrifoldeb hwn fel arfer yn cael ei ddirprwyo i ysgolion, mae rhai rhieni yn dewis ei arfer yn uniongyrchol drwy ddarparu addysg yn y cartref. Dylid nodi bod addysg yn y cartref yn gydradd mewn statud ag addysg yn yr ysgol.

Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE) yw'r term a ddefnyddir pan fydd rhieni'n cymryd cyfrifoldeb personol am addysg eu plentyn. Mae adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu:

“Rhaid i riant pob plentyn o oedran ysgol gorfodol beri iddo dderbyn addysg lawn amser effeithlon sy'n addas -

- (a) i'w oedran, ei allu a'i ddawn, ac
- (b) i unrhyw anghenion addysgol arbennig a all fod ganddo

**naill ai drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall.”**

Ni ddiffinnir addysg “effeithlon” ac “addas” yn Neddf Addysg 1996 ond mae “effeithlon” wedi cael ei ddisgrifio'n fras mewn cyfraith achosion fel paratoi'r plentyn ar gyfer bywyd yn ei gymuned ef/hi.

Mae oedran ysgol gorfodol yn dechrau ar ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd plentyn yn bump oed ac yn gorffen ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol y mae'n un ar bymtheg.

Nid yw'n ofynnol dan y gyfraith i rieni hysbysu'r Awdurdod Lleol eu bod yn addysgu eu plant yn y cartref. Os yw plant wedi bod yn mynychu'r ysgol, yna mae dyletswydd ar rieni i hysbysu'r pennaeth yn ysgrifenedig eu bod yn bwriadu cymryd cyfrifoldeb personol am addysg eu plentyn a dylai'r ysgol wedyn hysbysu'r Awdurdod Lleol. Dylid nodi nad oes rhaid i rieni wneud cais i addysgu eu plentyn gartref – eu hawl cyfreithiol yw gwneud hynny.

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol hefyd o dan adran 175 (1) o Ddeddf Addysg 2002 i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'r adran hon yn datgan:

*“Rhaid i awdurdod addysg lleol wneud trefniadau i sicrhau bod y swyddogaethau a roddwyd iddo yn rhinwedd ei swyddogaeth fel awdurdod addysg lleol yn cael eu harfer gyda golwg ar **ddiogelu a hyrwyddo lles plant.**”*

## **Diogelu**

Fel y nodwyd eisoes, nid yw addysg yn y cartref yn destun pryder diogelu ynddi'i hun. Fodd bynnag, bu nifer o achosion uchel eu proffil lle cafodd plant eu niweidio wrth iddynt gael eu haddysgu'n ddewisol yn y cartref, sy'n awgrymu'r canlynol.

- Mae rhai plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn destun llai o fonitro a chraffu na'r rheiny sy'n mynychu'r ysgol. Felly, pe bai plentyn yn destun camdriniaeth neu esgeulustod, byddai'r gwasanaethau'n llai tebygol o ddod yn ymwybodol ohono.
- Efallai y bydd rhieni plant sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn enwedig y rheiny ag anghenion cymhleth a/neu ddwys, yn cael trafferth gyda'r anawsterau ymarferol ac emosiynol o ddarparu addysg yn y cartref. Gall rhieni o'r fath fod heb gefnogaeth eraill a chael eu hynysu.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd i adrodd am blant sydd mewn perygl ac mae'n nodi y *'dylai fod yna bwyntiau cyswllt amlwg o fewn yr awdurdod lleol a'r partneriaid perthnasol er mwyn sicrhau y gall partner perthnasol hysbysu'r awdurdod lleol am unrhyw bryderon yn unol â'r ddyletswydd a nodir yn adran 130 o'r Ddeddf. Dylid cael un pwynt cyswllt ym mhob un o'r sefydliadau.'*

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar Addysg Ddewisol yn y Cartref rhif: 202/2016 yn datgan, *'Boed yn yr ysgol neu yn y cartref, dylai lles ac amddiffyniad pob plentyn a pherson ifanc fod o'r pwys mwyaf i bawb dan sylw. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb.*

*Dim ond pan fydd unigolion a chyrrff allweddol yn cydweithio i gynllunio a darparu gwasanaethau mwy integredig o amgylch anghenion plant a phobl ifanc y gellir cyflawni a chynnal gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc. Mae angen i hynny gael ei arwain a'i reoli ar lefel leol a'i gefnogi'n genedlaethol.'*

Mae Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan, Diogelu Plant sy'n cael eu Haddysgu yn y Cartref (Gweithdrefnau Diogelu Cymru) yn nodi *'Pan fydd unrhyw ymarferwr neu weithiwr proffesiynol yn cael gwybod bod rhiant/gofalwr yn bwriadu addysgu ei blentyn yn y cartref neu ei fod eisoes yn addysgu gartref, dylai roi ystyriaeth i anghenion llesiant a diogelu'r plentyn. Dylai hyn gynnwys ystyried a oes gan riant/gofalwr unrhyw anghenion gofal a chymorth a allai effeithio ar ei allu i ddarparu addysg addas i'r plentyn gartref neu i gefnogi ei les.'*

Cydnabyddir, yn absenoldeb unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n benodol ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu'n ddewisol yn y cartref, na fydd y protocol o bosibl yn dal pob plentyn sy'n cael ei addysgu yn y cartref, yn enwedig os bydd y plentyn yn symud i'r ardal o sir arall ac nad yw'n cofrestru gyda'r gwasanaethau.

## **Protocol Rhannu Gwybodaeth ar gyfer Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed yn rhanbarth Gorllewin Cymru 2019**

Mae rhannu gwybodaeth yn hanfodol er mwyn ymyrryd yn gynnar i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen, gan gynnwys cymorth addysgol. Mae hefyd yn hanfodol amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed yn sgil camdriniaeth neu

esgeulustod, a'u hatal rhag troseddu. Mae gan asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gyfrifoldeb yn unigol ac ar y cyd i ddarparu dyletswydd gofal iddynt.

### **Camau Rhannu Gwybodaeth Ddiogelu:**

Bydd sefydliadau sy'n bartneriaid, bob amser, yn gweithio'n unol â Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru. Mae [Protocol Rhannu Gwybodaeth](#) (ISP) Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn esbonio'n fras sut y gellir rhannu gwybodaeth fel rhan o'r broses hon. Mae ymarferwyr yn aml yn pryderu ynghylch cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Hawliau Dynol 1998 a gall hyn arwain at agwedd wrth-risg at rannu gwybodaeth.

Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth rhanbarthol yn nodi y gellir rhannu gwybodaeth fel **Cyfathrebu cyn Atgyfeirio**. Mae'r cam hwn o rannu gwybodaeth yn cydnabod y gall fod angen i weithwyr proffesiynol o sefydliadau sy'n bartneriaid gyfathrebu â'i gilydd, a thrwy hynny rannu gwybodaeth bersonol a sensitif, er mwyn gwneud atgyfeiriad diogelu. Nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn dileu nac yn cymryd lle'r ddyletswydd statudol i atgyfeirio at yr Awdurdod Lleol lle bynnag y canfyddir testun pryder, ond mae'n cydnabod y bydd angen i bobl broffesiynol efallai gyfathrebu cyn hyn er mwyn cadarnhau neu goladu'r wybodaeth ofynnol ar gyfer gwneud atgyfeiriad.

Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth yn egluro'r amgylchiadau lle mae rhannu a chyfnwid gwybodaeth yn angenrheidiol fel y gellir gwneud asesiad priodol i nodi bregusrwydd, anghenion ac yn bwysicaf oll risgiau, fydd yn sail i gamau gweithredu priodol.

Mae asiantaethau ac ymarferwyr o dan rwymedigaethau amrywiol i gynorthwyo a chydweithio ag asiantaethau eraill i geisio amddiffyn plant rhag niwed ac ateb eu hanghenion.

Dywed y Protocol Rhannu Gwybodaeth rhanbarthol, y dylid nodi bod y term 'diogelu' o ran rhannu gwybodaeth er mwyn '**Atal**' yn cyfeirio at **amddiffyn** ac **atal** hefyd rhag camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed.

Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth yn egluro, yn ogystal ag ymateb i sefyllfaoedd lle mae plentyn neu oedolyn yn amlwg mewn perygl o niwed, bod gan weithwyr proffesiynol ddyletswydd hefyd i gydweithio a rhannu gwybodaeth berthnasol er mwyn atal niwed o'r fath rhag digwydd neu waethygu. Bydd hyn yn aml yn cynnwys yr angen i rannu gwybodaeth bersonol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

Dywed Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sydd mewn Perygl, '*Rhaid i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Diogelu Data yr UE 2018 o 25 Mai 2018, a dyletswydd cyfrinachedd cyfraith gwlad. Mae hyn yn caniatáu rhannu gwybodaeth ac ni ddylid ei ddefnyddio'n awtomatig fel rheswm dros beidio â gwneud hynny. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir rhannu gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon heb ganiatâd lle bo gofyniad cyfreithiol neu os yw'r ymarferwr o'r farn ei fod er budd y cyhoedd. Un o'r amgylchiadau eithriadol yw er mwyn atal camdriniaeth neu niwed difrifol i eraill.*

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar Addysg Ddewisol yn y Cartref rhif: 202/2016 yn datgan bod '*Rhaid i bob asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a rhieni feddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Rhaid iddynt allu adnabod ac adrodd am bryderon diogelu ynghylch plentyn wrth asiantaethau perthnasol*'.

Gwybodaeth ddefnyddiol

Gellir darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r wybodaeth ganlynol:

Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 5 - Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sydd mewn Perygl:

<https://gov.wales/docs/dhss/publications/180511childrenatrisk.pdf>

Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 6 - Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sydd mewn Perygl:

<https://gov.wales/docs/dhss/publications/180511adultsatrisk.pdf>

## Cydsyniad

Dylid gwneud ymdrechion bob amser i gael caniatâd gan deuluoedd cyn cynnal unrhyw ymyriad neu atgyfeiriad. Fodd bynnag, mae'n ddealedig y gall fod adegau pan na cheir caniatâd a lle mae pryderon ynglŷn â diogelu plant yn parhau o hyd.

Mae Deddf Plant 1989 yn datgan y dylai pob asiantaeth gyhoeddus weithio gyda'i gilydd i gyfnewid a rhannu gwybodaeth er lles a diogelwch plant yn yr ardal.

Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r Ddeddf Hawliau Dynol hefyd, ac yn enwedig Erthygl 8 o Gonfensiwn Ewrop, byddai angen i unrhyw broses o rannu gwybodaeth fod yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn unol ag un o'r nodau cyfreithlon a nodir yn yr Erthygl, e.e. amddiffyn hawliau pobl eraill.

Cyn belled ag y mae cyfraith gyffredin cyfrinachedd yn y cwestiwn, lle na cheir cydsyniad, byddai angen bod budd cyhoeddus tra phwysig i gyfiawnhau datgelu - er enghraifft, byddai hyn fel arfer yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae risg i ddiogelwch neu les y plentyn heb i'r wybodaeth gael ei rhannu.

## Nodi disgyblion a addysgir gartref yn ardal Awdurdod Lleol

Dylai pob awdurdod lleol geisio nodi, cyn belled â phosibl, y plant hynny yn eu hardal sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref. Mae'n haws cyflawni hyn os bydd asiantaethau'n rhannu gwybodaeth am blant a phobl ifanc ac yn cysoni systemau sy'n gwneud hyn yn haws.

Gellir gwneud hyn drwy amrywiaeth o ddulliau:

- Pob Awdurdod Lleol yn cadw cronfa ddata/cofnod o blant y gwyddys eu bod yn cael eu haddysgu yn y cartref yn eu hardal. Dylai'r gronfa ddata adlewyrchu gwybodaeth debyg i'r hyn a geir am ddisgybl mewn ysgol brif ffrwd.
- Defnyddio ffurflenni ymadael/gwybodaeth y mae'n ofynnol i ysgolion eu cwblhau ac sy'n cynnwys gwybodaeth p'un a fu pryderon blaenorol ynghylch lles neu ddiogelu.
- Yr Awdurdod Lleol i wirio cofnodion genedigaethau yn erbyn derbyniadau i ysgolion i ddarganfod y plant hynny nad ydynt byth yn cofrestru mewn ysgol brif ffrwd.
- Defnyddio [Protocol Rhannu Gwybodaeth](#) (ISP) Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru i gyfnewid gwybodaeth gydag asiantaethau eraill, gan gynnwys lechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Heddlu i gynorthwyo i adnabod plant nad ydynt efallai yn hysbys i'r Awdurdod Lleol.
- Cydweithrediad asiantaethau eraill sy'n dod yn ymwybodol o blant sy'n cael eu haddysgu'n ddewisol yn y cartref.
- Sicrhau bod addysg ddewisol yn y cartref ar agenda cyfarfodydd strategol perthnasol yr ALI er mwyn olrhain a monitro tueddiadau/patrymau/themâu, h.y. datgofrestriadau uchel o ysgolion penodol neu oherwydd materion fel presenoldeb ac yn y blaen.
- Cryfhau'r cysylltiadau ag awdurdodau lleol rhanbarthol i sicrhau bod y wybodaeth am deuluoedd sy'n symud ar draws ardaloedd yn gadarn.

## **Cymorth a chyngor i rieni**

Dylai ymyrraeth gynnar a datrys gwrthdaro ar lefel ysgol cyn dadgofrestru fod yn brif nod bob amser wrth geisio datrys problemau a materion yn ymwneud â'r ysgol neu'r cwricwlwm. Gellir cyflawni hyn drwy ymyrryd yn gynnar a chyfeirio at rwydweithiau cymorth lleol megis gwasanaethau lles addysg, systemau cymorth bugeiliol mewn ysgolion, cymorth gydag ymddygiad neu gwnsela mewn ysgolion.

Bydd pob Awdurdod Lleol yn:

- Darparu dogfennau cyngor ac arweiniad sy'n amlinellu cyfrifoldebau'r rhieni, rôl yr Awdurdod Lleol a dyletswyddau cyfreithiol, rhwydweithiau cymorth, sefydliadau a all gynorthwyo ac yn y blaen.
- Darparu pecyn gwybodaeth i rieni yn amlinellu'r cymorth a'r cyngor perthnasol sydd ar gael gan yr Awdurdod Lleol gan gynnwys gwasanaethau cymunedol lleol priodol, a allai gynnwys taflenni, rhifau ffôn ac yn y blaen.
- Sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o wasanaethau cyffredinol yn eu hardal, fel y Tîm o Amgylch y Teulu, Gyrfaoedd, y Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion neu gyfleoedd gwirfoddoli.
- Cael cynghorwr penodol ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref sy'n gyfarwydd ag ethos addysg yn y cartref ac sy'n gallu dangos sgiliau rhyngpersonol da. Yn ddelfrydol, byddai gan y cynghorwr addysg ddewisol yn y cartref gefndir addysgol.
- Sicrhau bod gan y cynghorwr addysg ddewisol yn y cartref y gallu i gynnal ymweliadau neu gyfarfodydd blynyddol neu rai ychwanegol gyda rhieni i gynnig cyngor a chymorth os oes angen.
- Cynnig cyswllt o fewn 28 diwrnod neu lai ar ôl dadgofrestru o'r ysgol. Gallai hyn fod o gymorth i ddatrys unrhyw broblemau a allai fod wedi codi yn yr ysgol a/neu gallai gynnig y cyfle i drafod unrhyw ddewisiadau eraill. Os nad yw'r cyswllt wyneb yn wyneb, dylid cynnig ymweliad wyneb yn wyneb o fewn chwe wythnos yn dilyn hynny.
- Sicrhau bod llythyr i rieni lleol ynghylch addysg gartref yn cynnwys gwahoddiad i'r plentyn gymryd rhan mewn unrhyw ymweliad/cyfarfod sy'n cael ei gynnal ac yn amlinellu pam y gall hyn fod o gymorth i'r awdurdod lleol ac i'r teulu/plentyn. Dylai awdurdodau lleol gofnodi lle na roddir caniatâd.
- Ceisio cael caniatâd gan rieni i rannu neu ofyn am wybodaeth gyda/gan asiantaethau eraill os oes angen, gan fod yn onest gyda theuluoedd ynghylch pam y gallem fod eisiau cael gwybodaeth gan asiantaethau eraill a pha wybodaeth gymesur y gall fod arnom ei hangen.
- Cynnig gwasanaethau'r Awdurdod Lleol mewn amgylchiadau penodol, os yw hynny'n briodol, e.e. seicoleg addysg.
- Sicrhau bod y cynghorwr addysg ddewisol yn y cartref yn cael mynediad arolygol priodol i drafod materion diogelu a allai godi neu i ôl-drafod os oes ganddynt bryderon.
- Cynnig cyfleoedd hyfforddi neu weithdai i rieni os oes rhai ar gael a sicrhau bod y rhain yn cael eu cyfleu i bob rhiant sy'n addysgu gartref.
- Ystyried gweithio ar y cyd fel bod canllawiau /cyfathrebu ysgrifenedig / prosesau a gweithdrefnau yn gyson ar draws y rhanbarth.

## **Sgiliau Diogelu**

Mae diogelu yn fusnes/cyfrifoldeb i bawb, ond dylai rhai aelodau o staff rheng flaen fod wedi'u hyfforddi i lefel uwch o ddiogelu. Dylai hyn gynnwys y cynghorwr addysg ddewisol yn y cartref.

Dylai'r person hwn:

- Fod wedi cyflawni hyfforddiant diogelu sy'n gyson â grŵp staff C yn [Strategaeth Hyfforddi Diogelu Ranbarthol Pob Oedran](#) Canolbarth a Gorllewin Cymru gan gynnwys:
- Bod wedi cael profiad o weithio mewn cyd-destun diogelu
- Deall a chydabod y rhwystrau sy'n peri i blant a'u teuluoedd beidio ag ymgysylltu a/neu beidio â chydymffurfio.
- Meddu ar wybodaeth, dealltwriaeth a hyfforddiant mewn profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) a allai wneud plentyn yn fwy agored i niwed.
- Deall sut i herio gweithwyr proffesiynol eraill a sut i uwchgyfeirio pryderon yn briodol.
- Derbyn goruchwyliaeth gan weithiwr proffesiynol priodol i drafod pryderon diogelu sy'n deillio o ymweliadau neu gyfarfodydd. Dylai hyn ddigwydd bob chwarter o leiaf.
- Deall sut i gyfrannu'n briodol i asesiad rhyngasiantaethol drwy gasglu a rhannu gwybodaeth yn briodol.
- Gwybod pryd a sut i ymgynghori ag arweinydd diogelu neu swyddog diogelu dynodedig.
- Meddu ar ddealltwriaeth glir o sut y gall pobl gael gafael ar gymorth ar bob lefel o angen yn unol â'r trothwyon rhanbarthol ['Y Cymorth Cywir ar yr Amser Cywir'](#) a'r ddogfen cymhwyster i dderbyn cymorth.
- Gallu gweithio'n gydweithredol ac yn effeithiol gyda phartneriaid amlasiantaethol.

## Nodi pryderon

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym yng Nghymru ym mis Ebrill 2016 ac mae'n darparu fframwaith cyfreithiol cryfach ar gyfer diogelu plant ac mae wedi cyflwyno 'dyletswydd i adrodd' i'r Awdurdod Lleol ac mae'n diffinio 'plentyn mewn perygl'.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn nodi:

*'Mae'n rhaid i staff ar draws yr ALL, lechyd a'r Heddlu roi gwybod i'r ALL am bryderon os oes ganddynt achos rhesymol dros amau bod plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio neu ei fod eisoes yn dioddef hynny. Yn dilyn hysbysiad o'r fath, a chael ei fodloni bod achos rhesymol dros amau bod y plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol arfer ei ddyletswydd bresennol i ymchwilio o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989.'*

Gall adnabod plant y mae gan weithiwr proffesiynol bryderon yn eu cylch amrywio. I ddibenion y protocol hwn, ar ôl 12 mis, dylid ystyried adnabod plant nad ydynt wedi cael cyswllt â gweithiwr proffesiynol o unrhyw asiantaeth arall, sydd â dyletswydd i ddiogelu plant, yn ôl Adran 28 (2) o Deddf Plant 2004. Rhaid i hyn fod yn ddull amlasiantaethol o weithredu os yw plant a phobl ifanc i gael eu diogelu'n effeithiol.

Mae'r canlynol yn mapio'r dull o gyflawni hyn:

## Yr Awdurdod Lleol

- Yr Adran Addysg Leol i gynnal cronfa ddata o'r holl blant y gwyddys eu bod yn cael eu haddysgu yn y cartref yn eu hardal.
- Yr Adran Addysg Leol i ddefnyddio gwybodaeth y gronfa ddata i nodi'r plant hynny na chawsant unrhyw gyswllt â hwy o fewn y deuddeng mis calendr blaenorol.

- Ar ôl nodi'r plant hynny nad oes unrhyw gysylltiad wedi'i wneud â nhw neu nad ydynt wedi cael eu gweld, gofynnir i'r Gwasanaeth Lles Addysg/neu wasanaeth cyfatebol i wneud gwiriad llesiant.
- Y Gwasanaeth Lles Addysg i ddilyn y broses Plant Ar Goll o'r System Addysg, gan gynnwys gwneud cais am wybodaeth gan y Gwasanaethau Plant, lechyd a'r Heddlu. Gallai'r wybodaeth gymesur hon gynnwys:

- A yw'r plentyn yn hysbys i'r Gwasanaethau Plant ar hyn o bryd neu wedi bod yn y gorffennol diweddar?
- A welwyd y plentyn mewn unrhyw apwyntiadau iechyd/meddyg teulu yn ddiweddar?
- A yw'r cyfeiriad neu'r teulu yn hysbys i'r Heddlu am unrhyw reswm?
- A oes gan unrhyw rai o'r asiantaethau hyn unrhyw bryderon lefel isel?

### **Gwasanaethau Cymdeithasol Plant**

Ar ôl cael cais am wybodaeth gan eu Hadran Addysg berthnasol am y plant hynny sy'n cael eu haddysgu gartref yn eu hardal, nad ydynt wedi cael unrhyw gyswllt ag Addysg:

- Croesgyfeirio'r rhestr yn erbyn eu cofnodion eu hunain i weld pa rai o'r plant hynny a welwyd gan weithiwr proffesiynol o'u hadran yn ystod y deuddeng mis calendr blaenorol.
- Nodi a yw'r plentyn yn hysbys i'r Gwasanaethau Plant ar hyn o bryd neu a oedd yn y gorffennol diweddar neu a oes unrhyw bryderon lefel isel.
- Dychwelyd y wybodaeth hon i'r Adran Addysg am eu sylw.

### **Gweithiwr Iechyd Proffesiynol Enwebedig**

Ar ôl cael cais am wybodaeth oddi wrth yr Adran Addysg yn ei ardal ynghylch plentyn a addysgir gartref, nad yw wedi cael ei weld gan weithiwr proffesiynol naill ai o'r awdurdod lleol na'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant;

- Canfod a gafodd y plentyn ei weld mewn unrhyw apwyntiad iechyd/meddyg teulu yn ddiweddar.
- Cyfleu canlyniad y wybodaeth hon i'r Adran Addysg berthnasol.

### **Yr Heddlu**

Ar ôl cael gwybodaeth gan Adran Addysg leol yn nodi plentyn sy'n cael ei addysgu gartref, nad yw wedi cael ei weld gan weithiwr proffesiynol naill ai o'r Awdurdod Lleol nac o'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant;

- Croesgyfeirio'r wybodaeth hon yn erbyn systemau'r Heddlu er mwyn canfod a ydynt wedi cael cysylltiad â'r plentyn neu'r teulu hwnnw, sy'n bodloni eu rhwymedigaeth i ddiogelu lles y plentyn hwnnw, neu
- A oes ganddynt unrhyw wybodaeth am y cyfeiriad neu am unrhyw unigolion a allai fod yn byw yn y cyfeiriad a allai achosi pryder.
- Cyfleu canlyniad y wybodaeth hon i'r Adran Addysg berthnasol.

### **Cynllunio Diogelwch**

Dylai'r Adran Addysg, ar ôl cadarnhau pwy yw'r plant hynny a addysgir yn y cartref yn eu hardal nad ydynt wedi cael cyswllt ag unrhyw weithiwr proffesiynol nac asiantaeth yn ystod y deuddeng mis blaenorol, drafod y disgyblion hyn ymhellach o fewn eu hasiantaeth eu hunain i ystyried a oes angen unrhyw ymyrraeth bellach, h.y. gorchymyn mynychu'r ysgol, trafodaeth â'r Gwasanaeth Lles Addysg, ac efallai y bydd ar yr Awdurdod Lleol eisiau ystyried cael cyfarfod panel adran, lle y trafodir pryderon. Gall hyn gynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaeth ieuencid, gwasanaeth seicoleg addysg, gwasanaeth lles addysg,



cynrychiolydd NEET neu wasanaethau allgymorth sydd gennych yn lleol i drafod a oes unrhyw gynigion pellach o gymorth y gellir eu cynnig i'r teulu.

Os bydd pryderon ynglŷn â lles y plentyn yn cael eu codi yn ystod yr ymholiadau neu bryderon diogelu'n dod i'r amlwg, dylid rhoi ystyriaeth wedyn i drafod ymhellach gyda thîm rheng flaen y Gwasanaethau Plant neu gyflwyno Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (MARF) i'w hadran Gwasanaethau Plant berthnasol i ystyried y trothwy.